# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER 12 AWST AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | V M Evans |
| P Lloyd | K E Marsh | H M Morris |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| B Gilbert | Swyddog Trafnidiaeth |
| G James | Swyddog Uned Gludiant Ganolog |
| R Jones | Swyddog Trafnidiaeth |
| Y Lewis | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| G White | Cyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: C L Philpott a T H Rees

32 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd C A Anderson - Personol - Rhif Cofnod. 37 - Yn adnabod rhieni MJW.

33 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

34 **CAIS I DDIDDYMU’R AMOD O RAN LLEIAFSWM MAINT/CYNHWYSEDD YR INJAN.**

Cyflwynodd y Swyddog Adranno-Trwyddedu Bwyd a Diogelwch adroddiad a oedd yn ceisio diddymu’r amod o ran lleiafswm maint/cynhwysedd yr injan, fel a nodir yn amodau cerbydau hacni, hurio preifat a hurio preifat cyfyngedig.

Manylodd ar y cefndir; y sefyllfa bresennol; y cynnig; ystyriaethau ac argymhellion.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CADW'R** amod sy'n mynnu bod rhaid i gynhwysedd injan cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a cherbydau hurio preifat cyfyngedig fod yn llai na 1500cc.

## 35 <u>CANLYNIADAU APELIADAU.</u>

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu Bwyd a Diogelwch adroddiad 'er gwybodaeth' yn manylu ar ganlyniadau apeliadau.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei **NODI.**

## 36 <u>GWAHARDD Y CYHOEDD.</u>

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 37 <u>APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD I BEIDIO Â CHYMERADWYO GYRRWR AR GYFER CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL - MJW.</u>

Esboniodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor fod MJW wedi gofyn am ohiriad am fod gwallau gyda gwiriad GDG MJW.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD GOHIRIO'R** mater nes cyfarfod arall yn y dyfodol.

## 38 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR DAU FATHODYN - RBP.

Manylodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir ynglŷn â RBP.

Amlinellodd RBP y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** adnewyddu trwydded hurio preifat a cherbyd hacni RBP ac anfon llythyr rhybuddio o ran ei ymddygiad yn y dyfodol.

## 39 DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 - TEITHWYR MEWN CADEIRIAU OLWYN - CAIS AM DYSTYSGRIF EITHRIO - MAC.

Manylodd y Swyddog Adrannol – Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir ynglŷn â chais MAC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Gwnaeth MAC, yng nghwmni ei wraig, ddarparu manylion i gefnogi ei gais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** caniatáu tystysgrif eithrio i MAC am gyfnod o flwyddyn.

## 40 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - NM.

Manylodd y Swyddog Adrannol Trwyddedu, Bwyd  a Diogelwch manylu ar yr wybodaeth gefndir ynglŷn ag NM.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Eglurodd NM yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CANIATÁU** cais NM am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

41 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR DAU FATHODYN - PERCHENNOG CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - GWEITHREDWR HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - MCB.**

Manylodd y Swyddog Adrannol Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir ynglŷn ag MCB.

Amlinellodd MCB, gyda chymorth Ms Hill, bargyfreithiwr, yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD AR Y CANLYNOL:**

1) Y dylid **DIDDYMU** trwyddedau gyrru hurio preifat a cherbyd hacni **dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;**
2) Y dylid cyflwyno llythyr rhybudd terfynol i MCB (ynghylch cyfrifoldebau a chydymffurfio â gofynion statudol) ynglŷn â'r 9 trwydded yrru cerbyd hurio preifat cyfyngedig a'r drwydded cerbyd hurio preifat; a
3) Y Dylid **DIDDYMU** trwydded gweithredwr hurio preifat MCB ar gyfer MCB Travel **dan Adran 62 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.**

**Rhesymau dros y Penderfyniadau**

**Penderfyniad 1**

Nid oedd aelodau'n ystyried bod MCB yn berson addas a phriodol i feddu ar drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat mwyach o ganlyniad i’r collfarnau a adroddwyd.

O ran y drosedd dyddiedig 21 Ionawr 2016, cynghorwyd MCB ar 13 Ionawr 2016 nad oedd yn gallu gweithredu'r cerbyd dan sylw yn ei drwydded gweithredwr PSV. Gwnaeth MCB anwybyddu'r cyngor hwn a defnyddiodd y cerbyd fel cerbyd hurio preifat ar 21 Ionawr 2016 heb drwydded cerbyd dilys ac o ganlyniad cafodd gollfarn.

Nid oedd yr aelodau yn fodlon bod MCB wedi ymddwyn yn groes i’w gymeriad ac na fyddai'n ailadrodd y drosedd. Rhoddwyd llythyr rhybudd i MCB yn flaenorol, ond eto caniataodd i yrrwr didrwydded yrru cerbyd trwyddedig er ei fod yn ymwybodol fod angen trwydded i wneud hyn. Felly ystyriodd yr aelodau na fyddai rhybudd yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd teithiol, sef plant yn bennaf.

MCB oedd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau fod gofynion trwyddedig yn cael eu bodloni ac na chymerodd unrhyw gamau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion trwyddedu. Nid oedd yr aelodau wedi'u darbwyllo y byddai'r trefniadau cyfredol yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion trwyddedu.

**Penderfyniad 2**

Ystyriodd yr aelodau fod y troseddau a gyflawnwyd gan MCB, sef unig-gyfarwyddwr unigol y cwmni, a'r materion a adroddwyd a'r sylwadau a wnaed, yn newid materol

mewn amgylchiadau, ac o ganlyniad, nid oedd aelodau'n fodlon bellach fod MCB yn berson addas a phriodol i feddu ar drwydded gweithredwr.

Er mai'r drosedd hon yw trosedd gyntaf y cwmni, gan mai MCB yw unig-gyfarwyddwr y cwmni, ef sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion trwyddedu ac ystyriodd yr aelodau na chymerodd gamau digonol i ddiogelu'r cyhoedd teithiol, yn enwedig plant, drwy fonitro'n ddigonol y cerbydau a'r gyrwyr a ddefnyddiwyd..

O ran y drosedd dyddiedig 21 Ionawr 2016, cynghorwyd MCB ar 13 Ionawr 2016 nad oedd yn gallu gweithredu'r cerbyd dan sylw yn ei drwydded gweithredwr PSV. Gwnaeth MCB anwybyddu'r cyngor hwn a defnyddiodd y cerbyd fel cerbyd hurio preifat ar 21 Ionawr 2016 heb drwydded cerbyd dilys ac o ganlyniad cafodd gollfarn.

Nid oedd yr aelodau wedi'u bodloni bod y cam gweithredu a gymerwyd gan MCB yn erbyn gweithiwr yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd teithiol.

Nid oedd yr aelodau'n ystyried y byddai llythyr rhybudd arall yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd teithiol, sef plant yn bennaf, gan fod MCB wedi cyflawni trosedd debyg yn dilyn rhybudd blaenorol, lle cyflogwyd gyrrwr heb drwydded i ddefnyddio cerbyd trwyddedig i hurio, a gweithredwyd cerbydau hurio preifat heb y drwydded yrru cerbyd gofynnol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 pm

**CADEIRYDD**